Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Camu ymlaen – Marchnata Llwybr Arfordir Cymru

Cardiau adnoddau

## Ymwelwyr penwythnos

**Pacio llawer mewn i amser byr**

Mae'r gynulleidfa hon yn aml yn ymweld â safleoedd a chynefinoedd fel cyplau neu gyda grŵp o ffrindiau. Maen nhw'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd yn rheolaidd, ac maen nhw'n hapus i deithio i ddarganfod rhywle newydd. Maen nhw'n awyddus i bacio cymaint â phosib i'w penwythnos ac yn mwynhau treulio amser yn yr awyr agored, ac yn mwynhau gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored yn cynnwys dringo a nofio, a does dim ots gyda nhw fynd yn wlyb a mwdlyd.

## Crwydrwyr hamddenol

**Yn hoff o gerdded rhwydd mewn tywydd braf**

Mae'r grŵp hwn yn hoffi mynd am droeon hamddenol os yw'r tywydd yn ffafriol. Does dim awydd mentro i'r gwyllt arnyn nhw. Maen nhw'n hoffi dilyn llwybrau wedi'u harwyddo ac yn hoffi gwybod bod rhywle ble gallant fwynhau cinio bach neu goffi ar ddiwedd eu taith. Dydyn nhw ddim yn hoffi mentro'n bell i'r gwyllt. Mae'n well ganddyn nhw deithiau cerdded byr heb ormod o elltydd, a thoiledau gerllaw.

## Gwibdeithwyr

### Yn ymchwilio cyn mynd ac angen mynediad rhwydd

Yn llai heini nag y buon nhw, dydy'r grŵp hwn ddim eisiau cael eu rhwystro neu eu dal yn ôl. Maen nhw'n teimlo angen i fynd allan i'r amgylchedd naturiol a mwynhau gweld a chlywed byd natur. Mae angen llwybrau cerdded a thraethau hawdd eu cyrraedd, felly mae'r grŵp hwn yn defnyddio'r rhyngrwyd i gynllunio ac ymchwilio i dripiau undydd. Maen nhw'n hoffi gwybod pa gyfleusterau eraill y gallan nhw eu disgwyl pan fyddan nhw'n cyrraedd y safle er mwyn gallu penderfynu a fyddan nhw'n ymweld cyn cychwyn am adre. Mae angen teithiau cerdded arnynt ar dir gwastad gydag arwyneb cerdded da.

## Teithwyr undydd

### Yn chwilio am awyr iach a llecyn braf i gael picnic

Yn byw yn lleol, maen nhw'n ymweld â'r wlad a'r arfordir cyfagos yn rheolaidd i gadw'n heini ac ymlacio. Maen nhw'n cadw llygad ar y cyfryngau cymdeithasol am lefydd newydd i ymweld â nhw ac yn aml yn dilyn argymhellion gan bobl eraill. Maen nhw'n hoff o lecynnau tawel sydd ddim yn rhy boblogaidd, ble mae golygfeydd godidog a chyfleusterau picnic, oherwydd maen nhw'n hoffi dod â'u fflasg a'u brechdanau eu hunain. Os byddan nhw'n gweld rhywogaeth bywyd gwyllt, maen nhw'n chwilio am wybodaeth amdani oherwydd maen nhw'n hoffi dysgu am fyd natur bob amser.

## Ymwelwyr rheolaidd

### Yn ffyddlon ac yn hoffi'r cyfarwydd

Er nad ydyn nhw'n byw yn lleol, mae'r grŵp hwn yn hoffi mynd ar eu gwyliau yn yr un dref ar yr arfordir ddwywaith y flwyddyn, bob blwyddyn. Maen nhw'n teimlo'n gysurus am eu bod yn adnabod y dref, ac maen nhw'n teimlo cysylltiad agos â hi. Maen nhw'n cymryd diddordeb mawr yn beth sy'n digwydd yn y dref, ac yn hoffi ei gweld yn newid gyda'r tymhorau. Mae treulio amser oddi cartref ar yr arfordir yn dda i'w iechyd corfforol a meddyliol. Er eu bod yn gwybod fwy neu lai sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd, dydyn nhw ddim yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. A oes modd eu perswadio i ymweld â rhan newydd o Lwybr Arfordir Cymru?

## Teuluoedd

### Maen nhw'n hoffi mynd i ddigwyddiadau gwahanol a chreu atgofion newydd

Mae'r grŵp hwn yn hapus i deithio i'r arfordir os ydyn nhw'n gwybod y bydd y teulu'n cael amser braf wedi cyrraedd. Mae'r rhieni'n cadw llygad ar y cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd i weld pa ddigwyddiadau i'r teulu sydd ymlaen, ac fe wnân nhw drefnu i'r teulu gymryd rhan. Maen nhw'n actif ar y cyfan ac yn ymweld yn rheolaidd ag arfordir a chefn gwlad Cymru drwy gydol y flwyddyn, gan ddod â beiciau, sgwteri a phicnic gyda nhw – a mynd â'u sbwriel adref i'w ailgylchu. Mae ganddyn nhw'r potensial i ddylanwadu ar eraill, gan rannu eu profiadau gyda'u teulu a'u ffrindiau ar y cyfryngau cymdeithasol.

# Ymwelwyr cyndyn

## Yn ansicr beth sydd gan Lwybr Arfordir Cymru i'w gynnig

Dydy'r grŵp hwn ddim yn teithio oddi cartref yn aml. Maen nhw wedi treulio amser ac arian yn gwneud eu cartref a'u gardd yn gysurus, felly pam fydden nhw'n meddwl gadael? Fe wnaethon nhw fentro allan i ymweld â'r arfordir tua 12 mlynedd yn ôl ac fe gawson nhw amser iawn, ond roedd yn ofnadwy o bell i ffwrdd, a doedd dim llawer o syniad gyda nhw beth i'w wneud ar ôl cyrraedd. Er mwyn temtio'r grŵp hwn i fentro i'r arfordir, mae angen eu sicrhau y bydd atyniadau yno a phaned dda i'w chael wedi cyrraedd.

# Yn awyddus i grwydro

## Yn ansicr ble i fynd

Mae iechyd corfforol a/neu feddyliol gwael gan y grŵp hwn. Dydyn nhw ddim wedi arfer treulio llawer o amser yn yr amgylchedd naturiol, ond mae eu meddyg teulu wedi eu sicrhau y bydd mynd allan i'r awyr agored a chadw'n heini yn rhoi hwb i'w iechyd yn gyffredinol. Efallai nad oes llawer o hyder ganddyn nhw, felly bydd angen aros i orffwys yn rheolaidd pan fyddan nhw'n cerdded, ac mae angen iddyn nhw wybod y bydd rhywle i eistedd a thai bach gerllaw. Dydyn nhw ddim yn gwbl sicr y bydd cerdded ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn dda i'w iechyd. Oes modd eu darbwyllo? Ai taith dywys fyddai'r lle gorau i ddechrau?